# Ysgol Llanaelhaearn

Cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020 a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr o 1 Medi 2020.

*Ymgynghoriad Statudol - Fersiwn Disgyblion Cynradd*
*16 Rhagfyr 2019 – 29 Ionawr 2020*

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Cyflwyniad

Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried cau Ysgol Llanaelhaearn a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr.

Y rheswm am hyn yw mai dim ond 8 o blant sydd yn yr ysgol.

Dim ond 3 o blant y nosbarth plant bach a 5 o blant yn nosbarth plant mawr.

Rydym eisiau gwybod sut yr ydych yn teimlo am y cynlluniau ar gyfer Ysgol Llanaelhaearn a Ysgol Bro Plenydd.

Mae'r llyfryn hwn yn ceisio egluro beth fyddai'r newid yma yn ei olygu i chi fel disgybl.

# Beth yw pwrpas y newid?



Rhoi cyfle i chi gael dysgu a chwarae gyda phlant eraill o'r un oed

Sicrhau trefn addysgol dda i'r dyfodol

Gwneud gwell defnydd o adnoddau e.e. Offer TG

Cael dosbarthiadau o faint addas

# Beth yw'r cynnig?

Yr opsiwn sydd yn cael ei gynnig yn ardal Llanaelhaearn yw cau Ysgol Llanaelhaearn a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr.

**Cau**
Ysgol
Llanaelhaearn

Symud y disgyblion i
Ysgol Bro Plenydd

# Beth mae'r newid yma'n ei olygu?

**Os yw Cabinet y Cyngor yn penderfynu cau Ysgol Llanaelhaearn:**

- Yn lle mynd i Ysgol Llanaelhaearn, bydd disgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn cael cynnig symud i Ysgol Bro Plenydd, Y Ffor, sydd bron iawn 4 milltir i ffwrdd.

Mae'r Cyngor yn teimlo bydd y cynnig yma yn cryfhau addysg y plant i'r dyfodol

**Bydd symud i ysgol arall yn golygu:**

- Cyfle i gwrdd a ffrindiau newydd i chwarae a nhw
- Mwy o blant yr un oed a chi
- Mwy o blant i helpu eu gilydd
- Mwy o athrawon
- Rhoi profiadau teg i bob plentyn
- Pan ddaw'n amser i fynd i'r Ysgol Uwchradd, byddwch yn adnabod mwy o blant a fydd yn symud yno gyda chi.

# Camau

Cyfnod Ymgynghori Statudol
16 Rhagfyr 2019 – 29 Ionawr 2020

Cyfle i unrhyw un roi sylwadau ar y cynnig

Cabinet – Adrodd yn ôl i'r Cabinet gyda unrhyw sylwadau yr ydym wedi eu derbyn

Bydd Y Cabinet yn penderfynu os yw am fwrw mlaen gyda'r cynnig neu beidio

Os yw'r Cabinet am fwrw mlaen, dechrau 'Cyfnod Gwrthwynebu' am 28 diwrnod.

Bydd cyfle i chi, ac unrhyw un arall, wrthwynebu y cynnig yn ystod y cyfnod yma.

Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, y Cabinet yn gwneud penderfyniad terfynol ar y cynnig

## Beth ydych chi'n ei feddwl o'r cynnig?

Cyn i Gyngor Gwynedd benderfynu ar y ffordd ymlaen, rydym eisiau clywed eich barn chi am y cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn a chynnig lle i'r plant yn Ysgol Bro Plenydd.

## Sut ydych chi yn cael ymateb?

Mae croeso i unrhyw ddisgybl anfon sylwadau at y Cyngor i fynegi barn neu gwblhau holiadur.

Mae angen i'r Cyngor dderbyn eich sylwadau erbyn **29 Ionawr 2020**.

## Angen mwy o wybodaeth?

- Am fwy o wybodaeth, copi o'r holiadur, a'r ddogfen ymgynghori, ewch ar safle wê'r Cyngor, sef: www.gwynedd.llyw.cymru/morderneiddioaddysg
- Gallwch gysylltu â'r Cyngor drwy e-bostio: Moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru
- Gallwch anfon llythyr/sylwadau/holiadur drwy'r post erbyn **29 Ionawr 2020** at:

  Swyddfa Moderneiddio Addysg,
  Pencadlys Cyngor Gwynedd,
  Caernarfon,
  Gwynedd,
  LL55 1SE